

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

Chwiliad testun rhydd

English



PDF Argraffu Cyfeirnodï

Linell Amser English

Hafan Pori Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

ROWLANDS, JOHN ('Giraldus'; 1824 - 1891) achyddwr a hynafiaethydd

Enw: John Rowlands
Ffugenw: Giraldus
Dyddiad geni: 1824
Dyddiad marw: 1891
Rhiant: Anne Rowland (née Griffiths)
Rhiant: Lewis Rowland
Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: achyddwr a hynafiaethydd

Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Ysgolheictod ac Ieithoedd

Awduron: Robert Thomas Jenkins, Evan David Jones, Thomas Isfryn Jones

Yn ôl ei dystiolaeth ef ei hun ganwyd yr hynafiaethydd hwn yn Nanteos Arms, Llanbadarn Fawr, Ceredigion. Bedyddiwyd ef yn eglwys y plwy hwnnw, 20 Mawrth 1824, gan William Herbert, curad, fel mab Lewis Rowland, Tynewydd, ac Anne ei wraig, merch John Griffiths, goruchwyliwr ar stad Nanteos. Yr oedd ei daid, Thomas Rowland, Ffynnon-wen, yn heliwr enwog ac ar delerau cyfeillgar â theulu **Pryisiaid** Gogerddan. Bu farw y tad pan nad oedd John ond 4 oed, ac o hynny ymlaen gan ei nain yn Ffynnon-wen y magwyd ef. Byddai'n bugeilio dros yr hafau gan gael ychydig addysg yn y gaeafau mewn ysgol a gedwid yn y Caeau Bach ar stad yr Hafodau gan **Isaac Jenkins**. Wedi marw ei nain (Ffynnon-wen) aeth at ei daid John Griffiths, a thrwy hynny daeth yn gyfeillgar â theulu **Poweliaid** Nanteos. Priododd ei fam eilwaith. Saer ac adeiladydd o Landdewibrefi oedd David James, ei hail ŵr, a symudodd y teulu yn ddiweddarach i Bontlotyn. Yr oedd teulu David James yn eglwyswyr selog yng Ngheredigion ac ym Morgannwg. O dan aden ei lysdad prentisiwyd y bachgen i alwedigaeth saer a bu wrthi am 3 blynedd. Erbyn hyn magasai chwaeth at ddarllen ac erbyn ei fod yn 15 oed yr oedd yn ohebydd lleol i'r *Carmarthen Journal*. Dechreuwyd ei alw yn 'Brutus Bach' am fod ei arddull yn debyg i eiddo **David Owen**, 'Brutus'. Yn 1848 aeth i'r coleg hyfforddi athrawon newydd yng Nghaerfyrddin lle y daeth i sylw **Harry Longueville Jones**. Ei ysgol gyntaf oedd un Llangynnwr yn 1850. Symudodd i Landybie yn 1851, ac oddiyno i Lanelli a Dinas Powys. Yn niwedd 1864 aeth i Cheltenham yn ysgrifennydd Cymreig i **Syr Thomas Phillipp**s, dros yr hwn y buasai'n copïo cofebau yng Nghymru ers mis Awst 1863. Disgrifiai Giraldus ei hun fel llyfrgellydd Cymraeg i **Syr Thomas Phillipp**s, ac yn ddiamau bu'n cynorthwyo yn ei lyfrgell odidog. Yng ngwanwyn a haf 1865 yr oedd eto'n copïo cofebau a beddfeini yn siroedd Penfro a Morgannwg. Cyhoeddwyd rhai Morgannwg yng ngwasg breifat Middle Hill yn 1865 o dan y teitl, *Glamorganshire Monuments* a rhai Sir Gaerfyrddin fel *Carmarthenshire monumental inscriptions*. Gadawodd Thirlestaine House ar 4 Medi 1865. Mewn erthygl yn *Yr Haul* am fis Hydref 1873 rhydd Rowlands ei ochr ef i hanes ei wasanaeth gyda'r llyfrbryf od, a dweud y lleiaf, o'r braidd y gellid disgwyl i ddau o natur wyllt gytuno, un yn achwyn fod y llall yn copïo'n anghywir a'r llall yn cwyno am fychander y tâl. I ennill bywoliaeth fain byddai'n rhaid i Rowlands gopïo'n gyflym iawn ar y raddfa isel a ganiateid iddo. Ar wahan iddo droi eto at newyddiaduraeth y mae ansicrwydd am symudiadau Giraldus am rai misoedd. Yn ôl un a'i geilw'i hun yn 'Gwyn o Went' yn *Yr Haul*, 1881, tt. 201-3, mewn ysgrif arno, a seiliwyd i bob ymddangosiad ar wybodaeth gan y gwrthrych ei hun, cafodd swydd yn llyfrgell Llandaf sef llyfrgell Llandaff House (eiddo'r Cynol Bennett a adweinid yn well fel yr Uchgapten Richards) a werthwyd gan gwmi Sotheby ar 20 a 21 Ebrill 1871 (*Cardiff Times*). Yn ôl **John Davies** (1860 - 1939) cyhoeddwyd catalog o gynnwys y llyfrgell hon o waith Rowlands yn 1864. Ni wyddys am gopï o'r catalog hwn nac o'r catalog cyntaf o lyfrgell gyhoeddus Caerdydd y dywed yr un gŵr iddo'i wneud yn yr un cyfnod. Hwyrach iddo fynd i Gaerfyrddin i gadw ysgol. Beth bynnag, ar farwolaeth **Brutus** yn Ionawr 1866, penodwyd ef i gynorthwyo **William Spurrell** fel golygydd *Yr Haul* ac am lawer blwyddyn o dan yr enw 'Giraldus' bu'n cyfrannu erthyglau hanesyddol a hynafiaethol i'r cylchgrawn. Y mae sicrwydd iddo droi eto at gadw ysgol a hynny mewn ysgol waddoledig ym Medwas. Rhoddodd hon i fyny er mwyn ymuno â **Hugh Williams** ('Cadfan') i gychwyn *Y Dywysogaeth* yn 1870, a symudodd i Gaerfyrddin i roi ei holl amser i'r Wasg Eglwysig. Yng Nghaerdydd y cyhoeddodd ei *Historical Notes on ... Glamorgan, Carmarthen, and Cardigan*, by *John Rowlands, late librarian* a gellir casglu mai yng nghyffiniau Caerdydd y preswyliai y pryd hwnnw. Ni wyddys pa bryd y gadawodd Caerfyrddin, ond dywed **Edward Thomas** ('Cochfarf'; *Y Geninen*, Mawrth 1908, 57) mai newydd ddyfod i 'Rhydmi' fel ysgolfeistr yr oedd Rowlands pan welodd **Thomas** ef gyntaf yn 1879. Mae'n anodd penderfynu ai ym mhentref glofao! Rhydmi ym mhen uchaf y cwm neu ym mhentref 'Rumney' sef Tredelerch, y tu allan i Gaerdydd ond yn awr yn rhan o'r ddinas, yr oedd Rowlands yn dysgu. Y cyntaf a awgrymir gan J. S. Jones yn ei *Hanes Rhydmi a Phontlottyn*, 40, ond yn ddiôs at yr ail le y cyfeiria **Cochfarf**. Efallai iddo wasanaethu yn y ddau yn olynol. Fodd bynnag, yn ystod gaeaf 1883-4 parlyswyd Rowlands a syrthiodd i gryn dlodi. Fel canlyniad i apêl a ddechreuwyd gan glerigwyr blaenllaw yn Sir Forgannwg casglwyd swm sylweddol o arian a defnyddiwyd rhan ohono i brynu tŷ yn Broadway, Caerdydd, i Rowlands a'i wraig. Ymhellach, llwyddodd **T. Marchant Williams** i berswadio'r llywodraeth i roddi pensiwn athro iddo er nad oedd hyd ei wasanaeth yn ddigon i'w ennill iddo. Bu farw 4 Gorffennaf 1891 yn 67 oed a chladdwyd ef ym mynwent Tredelerch ar 8 Gorffennaf. Ceir nodyn byr arno yn *Y Llan*, ddeuddydd wedi'r angladd, yn tystiolaethu iddo fod 'yn ohebydd ffyddlon a diddorol i'r *Llan* a phapyrau Eglwysig Cymreig eraill am flynyddau lawer. Yr oedd yn ddy'n siriol a boddlongar iawn, ac yn Eglwyswyr [sic] selog'. Yn ychwanegol at y llyfrau a enwyd uchod cyhoeddodd *The Pedigree of the ancient family of Dolau Cothi*, (Caerfyrddin, 1877), a *Welsh Royalists*, (Caerdydd, 1881).

Awduron

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Evan David Jones, (1903 - 1987)

Thomas Isfryn Jones

Ffynonellau

Archifau LIGC: NLW MS 8705D: Llenorion sir Aberteifi

A. N. L. Munby, *Phillipps Studies* No. IV.

Am restr helaeth o'i lyfrynnau a'i erthyglau gweler Glyn Lewis Jones, *Llyfryddiaeth Ceredigion, 1600-1964* (Aberystwyth 1967), III, 809-12

Edward Thomas, 'Fy adgofion am John Rowlands (Giraldus),' *Y Geninen* (Gwyl Dewi), 1908. tt.57-58

Thomas David Jones, 'Giraldus,' *Y Geninen*, Hydref 1891, tt.275-276

T. M. Jones, *Llenyddiaeth fy Ngwlad: sef hanes y newyddiadur a'r cylchgrawn Cymreig yn Nghymru, America, ac Awstralia, yn nghyd a'u dylanwad ar fywyd cenedl y Cymry* (Treffynnon 1893)

The Red Dragon, vii

Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, Cardiff Free Libraries (1898)

Gweithiau

John Rowland, *Sir Nicholas Kemeys, Bart., Cefn Mably, the captor and defender of Chepstow Castle, with the family history and pedigree, deduced from pedigrees and MSS*,Cardiff 1881)

John Rowlands (gol.), *Caermarthenshire monumental inscriptions* (Cheltenham 1865)

Dolenni Ychwanegol

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Jenkins, R. T., & Jones, E. D., & Jones, T. I., (1970). ROWLANDS, JOHN ('Giraldus'; 1824 - 1891) achyddwr a hynafiaethydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-ROWL-JOH-1824>

Y Bywgraffiadur

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Woddi gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government